Yn ein barn ni, ni chyfeiriwyd gwariant cyhoeddus tuag at fuddsoddiadau i wella CMC i'r graddau y gallai ac y dylai fod wedi ei wneud. Mae'n hanfodol fod y Llywodraeth newydd yn defnyddio ei chyllid yn fwy effeithiol, ac mai twf yr economi yng Nghymru yw prif ystyriaeth y Llywodraeth newydd.

RHAID I WARIANT Y CYNULLIAD DDANGOS CANLYNIADAU AC ALLBYNNAU DANGOSADWY

Dylai data ynglŷn â gwariant y Cynulliad fod ar gael yn haws, yn unol â'i fwriad datganedig o ddarparu system lywodraethol dryloyw. Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Alban a Lloegr ar gael yn haws na gwybodaeth am Gymru.

Byddai hyn yn caniatáu gwerthuso effeithiolrwydd ac asesu canlyniadau gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Byddai hefyd yn caniatáu barnu ymhle y dylid ailddosbarthu cyllid.

MEINCNODI AC ARFER GORAU

Mae aelodau CBI Cymru o'r farn y dylai'r Cynulliad ddarparu tystiolaeth o sut y mae'n gwario ei arian mewn meysydd polisi allweddol a'r allbynnau a gyflawnwyd, wedi'i feincnodi yn erbyn rhanbarthau eraill y DU, a hefyd yn erbyn gwariant a chyflawniadau blaenorol.

Dylid nodi a dilyn arfer gorau ac enghreifftiau da. Lle bydd polisi yn gweithio'n dda, ac arian cyhoeddus yn cael y canlyniadau gorau, dylid nodi'r mecanweithiau y tu ôl i hyn a'u lledaenu ar draws meysydd polisi'r Cynulliad.

Mae'r CBI o'r farn nad oes a wnelo hyn â faint o arian sy'n cael ei wario o fewn maes polisi penodol ond, yn hytrach, â pha mor effeithiol y gwariwyd yr arian hwnnw, a'r gwahaniaeth go iawn a wnaed ganddo.

Bydd hyn hyd yn oed yn fwy perthnasol o ystyried y cyfyngiadau ariannol cynyddol llym y mae'r Llywodraeth, yng Nghymru ac yn San Steffan, yn gweithredu oddi mewn iddynt.

RHAID I HOLL ADRANNAU'R LLYWODRAETH/CYRFF CYHOEDDUS DDANGOS EU CYFRANIAD AT DWF YR ECONOMI

I finiogi ei ffocws ar dwf yr economi ac i danlinellu ei hymrwymiad iddo, mae'r CBI o'r farn y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi datganiad blynyddol sy'n nodi sut y mae gwaith pob adran yn cyfrannu at dwf economaidd.

Er bod y portffolio Menter o bwysigrwydd amlwg i fusnes, ac yn dangos ei fwriad a'i gyflawniadau i'r economi drwy ei Adroddiad Blynyddol neu Gynllun Busnes, mae adrannau eraill y Llywodraeth yr un mor bwysig. Er enghraifft, mae'r adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ill dwy'n cymryd penderfyniadau ac yn gweithredu camau sy'n effeithio'n sylweddol ar fusnes, ond nid yw llawer o fewn yr adrannau hyn yn ymwybodol o ganlyniadau eu gweithgareddau ar economi Cymru.

Os yw twf economaidd i fod yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth newydd, rhaid i bob gwleidydd a swyddog fod wedi ymrwymo iddo, gan gychwyn ag ymwybyddiaeth o effaith eu gweithgareddau eu hunain.

Hoffai busnes weld cyllideb y Cynulliad yn cael ei gwario mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, gyda chanlyniadau ac allbynnau dangosadwy

4. ECONOMI CYMRU, EFFEITHLONRWYDD Y SECTOR CYHOEDDUS A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

“Mae’r sector cyhoeddus yn cyfrif am 24.3% o CMC Cymru – o’i gymharu â 18.2% yng ngweddill y DU. Mae’r trethdalwr, unigolion a busnesau fel ei gilydd yn gyfrifol am dalu am hyn. Ond a yw’r fath economi, a yrrir gan wariant cyhoeddus yn hytrach na thrwy greu cyfoeth, yn fodel hirdymor cynaliadwy?”

Mae aelodau CBI Cymru yn gynyddol o’r farn fod maint cymharol y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dod yn broblem ac yn atal twf economaidd. Mewn gwirionedd, gall sector cyhoeddus hyblyg ac arloesol fod yn gatalydd ar gyfer tyfiant yn yr economi, a rhaid i ni geisio cyflawni hyn. Mae’r CBI o’r farn fod yn rhaid ymdrin â’r cydbwysedd cyhoeddus-preifat o fewn economi Cymru os ydym ni i fodloni ein nodau economaidd a chymdeithasol a chyflawni ar ran pobl Cymru.

Dylid ail-gydbwyso gwariant cyhoeddus, gyda chyfran fwy o arian trethdalwyr yn cael ei defnyddio ar fuddsoddiad sy’n cefnogi greu cyfoeth, fel sgiliau ac isadeiledd trafndiaeth.

MWY O YMWNEUD GAN Y SECTOR PREIFAT MEWN CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Mae sut caiff arian cyhoeddus ei wario, a oes angen mwy ac a oes angen treth uwch yn bryderon pwysig i fyd busnes.

Mae’r oes aur o gyllid i’r sector cyhoeddus yng Nghymru yn debygol o ddod i ben ymhen rhai blynyddoedd. Bydd y cyd-destun gwleidyddol ac ariannol y bydd y Cynulliad newydd yn gweithredu o’i fewn yn llawer anoddach ac yn llawer mwy cyfyng. Ni all Llywodraeth y Cynulliad gyflawni ei dyheadau ar ei phen ei hun yn erbyn y cefndir hwn.

Dylai hyn roi pwyslais ar fwy o effeithlonrwydd ac arloesedd yn y sector cyhoeddus. I wella

effeithlonrwydd, gwella cynhyrchedd a chynnig gwerth am arian, rydym o’r farn fod angen diwygio gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sylfaenol – diwygiad mwy sylfaenol nag a geir yn agenda “Creu’r Cysylltiadau” gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae’r CBI o’r farn fod gan y Cynulliad lawer i’w ennill o ymwneud â’r sector preifat, a thrwy ymdrin â’i strwythurau llywodraethu a’i swyddogaethau cyflawni, i alluogi i’r sector preifat gynorthwyo neu gyflawni lle bo’n briodol a, thrwy hynny, rhoi lle i fusnes dyfu.

Gall y sector preifat gamu i mewn a chynnig gwasanaethau y mae mewn sefyllfa well i’w cyflwyno na’r sector cyhoeddus, a gall ddarparu cyngor i’r sector cyhoeddus wrth gynllunio a phrynu gwasanaethau mewn meysydd allweddol. Profwyd hyn eisoes mewn rhannau eraill o Brydain, ac mewn meysydd yng Nghymru nad ydynt wedi’u datganoli, fel y contract amddiffyn Metrix i Sain Tathan ac oddi mewn i’r gwasanaethau carchar a phrawf. Mae model Metrix yn un yr hoffwn weld yn cael ei ddilyn yn y dyfodol.

Mae’r sector cyhoeddus yn cyfrif am 24.3% o CMC Cymru – o’i gymharu â 18.2% yng ngweddill y DU. Mae’r trethdalwr, unigolion a busnesau fel ei gilydd yn gyfrifol am dalu am hyn. Ond a yw’r fath economi, a yrrir gan wariant cyhoeddus yn hytrach na thrwy greu cyfoeth, yn fodel hirdymor cynaliadwy?

Yn y dyfodol, bydd rôl y llywodraeth yn ymwneud yn gynyddol â sicrhau cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd ragorol - ond ni ddylid drysu rhwng hyn a'r angen i fod yn gyflwynydd bob amser. Ers tro byd, mae cwmnïau wedi defnyddio'r penderfyniad "cynhyrchu neu brynu" i nodi meysydd hanfodol proses lle maen nhw'n ychwanegu gwerth, a'r gweithgareddau hynny y mae'n well eu contractio'n allanol.

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru gymhwyso meini prawf tebyg i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Bydd mantais ddeuol i nodi'r prosesau a'r gwasanaethau y mae'n well eu contractio'n allanol: bydd yn caniatáu i'r llywodraeth ganolbwyntio ar y gwasanaethau sy'n gymwyseddau craidd ac y mae'n rhaid eu gwneud yn fewnol; a bydd yn cynnig cyfleoedd i beri twf yn economïau'r sectorau preifat a gwirfoddol.

Mae hyn yn cofleidio'r agenda partneriaeth a nodwyd yn Adolygiad Beecham, a'r agenda cydweithredu a nodwyd yn Creu'r Cysylltiadau. Dylai ganiatáu i'r Cynulliad gyflwyno ar rai o'i flaenoriaethau allweddol ac mae hefyd yn cynorthwyo i ddatblygu'r sector preifat a thrwy hynny, yn hanfodol, ddatblygu economi Cymru.

ARBEDION EFFEITHLONRWYDD MWY YMESTYNNOL AR DRAWS Y SECTOR CYHOEDDUS, I GYD-FYND Â LEFELAU GERSHON

Dylai effeithlonrwydd cyflwyno'r gwasanaeth cyhoeddus, a gwariant cyhoeddus, gael blaenoriaeth uwch o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach. Er y gosodwyd targedau meddal ar gyfer effeithlonrwydd o fewn agenda Creu'r Cysylltiadau ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Adolygiad Beecham, nid yw'r CBI o'r farn fod y targedau hyn yn ddigon ymestynnol i greu gwelliannau ystyrlon.

Mae'r Cynulliad wedi gosod targed ar gyfer arbed £600m cyn pen pum mlynedd (fel y nodir yn 'Creu'r Cysylltiadau.'). Mae'r CBI yn credu'n gryf y dylai Llywodraeth y Cynulliad gynyddu ei thargedau effeithlonrwydd i'r lefelau a nodwyd

yn Adolygiad Gershon yn Lloegr, ac y dylai gyhoeddi manylion am yr arbedion a gyflawnir yn flynyddol, ac adeiladu arbedion arfaethedig yn y dyfodol i mewn i'w chyllidebau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

RHAID I LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU YMDRIN Â STRWYTHUR GORGYMHLETH CYRFF CYHOEDDUS YNG NGHYMRU

Yng Nghymru, mae gennym amrywiaeth o gyrff cyhoeddus sy'n cyflwyno gwasanaethau ar draws y sbectrwm, ar lefel genedlaethol, rhanbarthol, isranbarthol, lleol a chymunedol.

Mae gan Gymru ddau awdurdod lleol ar hugain, y mae llawer ohonynt yn rhy fach i gyflwyno gwasanaethau o ansawdd da. Yn ei dro, mae'r strwythur hwn yn llywodraethu strwythur cyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, fel Byrddau Iechyd Lleol o fewn y GIG, Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant, a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol sydd newydd eu cyhoeddi.

Fel gwlad a chanddi boblogaeth o bron i 3 miliwn, mae gan Gymru fwy na 150 o gyrff cyhoeddus gwahanol, sy'n gweithredu ar lefelau gwahanol ar draws y wlad. Mae hyn yn llawer gormod, ac mae'n arwain at orgymhlethu o fewn strwythurau llywodraethu a gweithredu'r wlad. Mae'n sicr hefyd nad yw'n arwain at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

Mae'r CBI o'r farn fod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymdrin â'r strwythur gorgymhleth hwn, a bod angen diwygiadau cyffredinol. Mae Cynllun Gofodol Cymru wedi nodi wyth rhanbarth allweddol yng Nghymru, am ein bod o'r farn y dylid archwilio'r model hwn yn agos wrth i ni symud yn ein blaenau.

CYFNEWID PERSONÉL RHWNG Y SECTOR CYHOEDDUS A'R SECTOR PREIFAT

Byddai mwy o gyfnewid o ran cyfarwyddwyr a rheolwyr rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus yn arwain at ddealltwriaeth well o fanteision cydweithio rhwng y sectorau hyn. Byddai'r CBI yn ymwneud yn frwdfrydig â'r fenter hon.

5. ECONOMI CYMRU A CHAFFAEL

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn caffael gwerth £4 biliwn o wasanaethau bob blwyddyn. Mae hwn yn gyfle gwych i'r sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, ac er bod y CBI yn cydnabod y camau sylweddol a gymerwyd yn y maes hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru hyd yn hyn, mae llawer i'w wneud o hyd.

CAFFAEL GWELL GAN Y SECTOR PREIFAT YNG NGHYMRU

Er mwyn adeiladu gallu yn y sector preifat, ac i gyflwyno nwyddau a gwasanaethau gwell i bobl Cymru, rhaid cael caffael gwell gan y sector preifat yng Nghymru, yn unol â rheoliadau cydymffurfiaid Ewrop.

Mae'r CBI am i Weinidogion hyrwyddo cyfleoedd busnes i fusnesau yng Nghymru ledled pob agwedd o'r sector cyhoeddus.

SYMLEIDDIO BIWROCRATIAETH

Yn aml, bydd busnesau sy'n ceisio gwerthu i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn disgrifio'r broses yn un lletchwith a gor-fiwrocraidaidd. Dylai gwerthu i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn gyfle gwych i fusnesau yng Nghymru, ac mae busnesau ledled Cymru yn barod ac yn fodlon gwneud hyn. Rhaid gwerthuso arferion a gweithdrefnau caffael yn barhaus, gan gynnwys cyfathrebu â busnesau, gyda'r nod o symleiddio a diwygio biwrocraetiaeth lle bo modd.


GWELLA MWY AR

WWW.SELL2WALES.CO.UK

Rydym yn cydnabod yr angen i'r sector cyhoeddus dynnu gwerth ac arloesedd o gaffael, ac nid rheoli cost yn unig. Mae hyn yn gofyn am reoli'r galw i gael mynediad at y gorau gan gwmnïau o bob maint. I'r perwyl hwnnw, rydym yn cefnogi gwaith Gwerth Cymru yn llawn, a'i wefan arloesol sell2wales.co.uk, o ran gyrru'r agenda hwn yn ei blaen, ac yn annog y Cynulliad i warantu cefnogaeth barhaus i'r fenter.

HYFFORDDIANT GWELL I GEFNOGI PROFFESIYNOLION CAFFAEL Y SECTOR CYHOEDDUS

Rhaid i arfer gorau ddod yn arfer cyffredin ledled y sector cyhoeddus. Mae ewyllys gwleidyddol yn ganolog i lwyddiant y diwygiadau hyn, yn yr un ffordd â recriwtio carfan newydd o gaffaelwyr sector cyhoeddus uchel eu hansawdd, y mae eu prinder yn rhwystr i gyflawni gwerth am arian ac arloesedd. Rhaid ceisio hyfforddi staff sector cyhoeddus hefyd mewn dulliau caffael proffesiynol, a rhaid cydnabod arwyddocâd staff caffael o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus.



Mae'r CBI am i Weinidogion hyrwyddo cyfleoedd busnes i fusnesau yng Nghymru ledled pob agwedd o'r sector cyhoeddus

6. ECONOMI CYMRU A'R BOBL

“Mae blaenoriaethu anghenion economaidd Cymru yn ein hymagwedd at addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yn hanfodol os ydym ni i lwyddo mewn economi byd-eang cynyddol gystadleuol.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd system addysg addas i'r diben o'r safon ryngwladol uchaf ac ymagwedd at sgiliau a arweinir gan gyflogwyr. Fel arall, bydd llai o gyfleoedd a chyfleoedd gwaelach i genedlaethau o Gymry yn y dyfodol, gan arwain at ddirywiad cyflym yn ein safle cystadleuol byd-eang.”

Mae addysg yng Nghymru yn brolio nifer o lwyddiannau. Fodd bynnag, mae bron yn sicr na fydd yr hyn sy'n ddigon da ar hyn o bryd yn ddigonol ymhen pum mlynedd, gan gymaint yw cyflymder y newid byd-eang a'r flaenoriaeth a roddir ar ddatblygu sgiliau gan ein cystadleuwyr.

Mae'r Cynulliad eisoes wedi nodi camau allweddol y mae eu hangen i wella lefelau sgiliau yng Nghymru, ac o ganlyniad i hynny gyrru economi Cymru yn ei flaen. Mae'r CBI yn croesawu'r bwriad i ymgeisio am barch cydradd rhwng addysg alwedigaethol ac academaidd yng Nghymru, a'r ymgais i greu polisiau a arweinir gan gyflogwyr, gyda ffocws ar y gweithle. Mae busnes yn barod i gynorthwyo'r Cynulliad wrth gyflawni ynglŷn â'r bwriad hwn.

CYNNAL YR YMDRECH TUAG AT WELLA LEFELAU SGILIAU SYLFAENOL LEDLED CYMRU

Er nad yw'n hawdd rhagweld gofynion penodol wrth i fusnesau yng Nghymru esblygu, mae sgiliau y mae ar bob busnes eu hangen gan bob gweithiwr newydd. Mae sgiliau sylfaenol – llythrennedd a rhifedd – yn flaenllaw o ran y gofynion hyn.

Cymeradwywn ddyhead Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymdrin â'r problemau sgiliau sylfaenol sydd a chanddynt wreiddiau dyfnion

ledled Cymru, a byddwn yn parhau i ymwneud â gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol. Er na ellir datrys y problemau hyn dros nos, mae'r CBI o'r farn y dylai'r ymdrech i wella lefelau sgiliau sylfaenol ymysg newydd-ddyfodiaid i'r gweithle, y rheiny sydd mewn gwaith eisoes, a'r rheiny sy'n economaidd anactif barhau ar frys.

SICRHAU BOD SYSTEM ADDYSG A HYFFORDDIANT A ARWEINIR GAN GYFLOGWYR YN CAEL EI GWIREDDU

Dylai'r system addysg a hyfforddiant allu ymateb i'r galw am sgiliau penodol i swyddi. Bydd methu â gwneud hynny'n arwain at ganlyniadau niweidiol i bawb.

Adroddodd Adolygiad Leitch ar yr angen i greu system sgiliau a hyfforddiant yn y DU a arweinir yn wirioneddol gan alw, gyda'r nod o fodloni anghenion diwydiant ac, wrth wneud hynny, gyrru'r economi yn ei flaen. Mae'r CBI o'r farn fod yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru chwarae ei rhan mewn gweithredu argymhellion Adolygiad Leitch yng Nghymru, ac mae'n edrych ymlaen at ymgysylltu â gwleidyddion a swyddogion yn hyn o beth. Mae Adolygiad Webb o Addysg Bellach yng Nghymru yn gyfle allweddol i Lywodraeth newydd y Cynulliad sicrhau bod y sector AB yn bodloni anghenion cyflogwyr.

Mae blaenoriaethu anghenion economaidd Cymru yn ein hymagwedd at addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yn hanfodol os ydym ni i lwyddo mewn economi byd-eang cynyddol gystadleuol

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU A BUSNESAU YNG NGHYMRU I ANNOG MWY O DDISGYBLION I DDILYN GWYDDONIAETH A MATEMATEG YN YR YSGOL

Wrth i bob prif economi rhyngwladol geisio uchafu arloesedd a cheisio gweithredu ym mhen gwerth ychwanegol uchel y gadwyn gynhyrchu, daw datblygiad parhaus sgiliau gwyddonol, technolegol a pheirianegol yn y boblogaeth yn bwysicach, yn hytrach nag yn llai pwysig.

Mae cyflogwyr yng Nghymru yn bryderus ynglŷn â nifer isel y disgyblion mewn ysgolion, a'r myfyrwyr mewn prifysgolion, sy'n astudio yn y meysydd hynny. Yma, ceir cyfrifoldeb rhanedig rhwng busnes, darparwyr addysg a'r llywodraeth i adeiladu sylfaen wyddonol a pheirianegol Cymru.

RHOI MWY O SYLW AC ADNODDAU I ASTUDIO IEITHOEDD TRAMOR MODERN

Yn yr un modd, wrth i ni weithredu mewn marchnad sy'n gynyddol fyd-eang, mae angen canolbwyntio'r system addysg ar yr ieithoedd y mae eu hangen i gynnal busnes oddi mewn i'r farchnad hon. Rhaid rhoi llawer mwy o sylw ac adnoddau i astudio ieithoedd tramor modern - i Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, a hefyd i ieithoedd fel Mandarin.

Os ydym ni'n wirioneddol am gystadlu a ffynnu yn y farchnad fyd-eang, rhaid i ni sicrhau y gall ein pobl gynnal busnes nid yn unig yn ein hiaith ein hunain, ond yn ieithoedd ein cymdogion a'r cystadleuwyr sydd gennym.

7. ECONOMI CYMRU A'R AMGYLCHEDD

GOSOD POLISIÂU AMGYLCHEDDOL MEWN CYD-DESTUN ECONOMAIDD

Mae CBI Cymru o'r farn y dylai Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu a gweithredu polisiau amgylcheddol yn y cyd-destun economaidd ehangach.

Mae ymdrin â newid yn yr hinsawdd a chynnal ein hamgylchedd yn creu cyfleoedd i gynhyrchion a gwasanaethau amgylcheddol neu "wyrdd" newydd i gwmnïau yng Nghymru, ac mae'n gonglfaen i gyflawni potensial ein diwydiant twristiaeth.

Yr her i'r Llywodraeth nesaf fydd cyflawni gwelliannau amgylcheddol heb niweidio cystadleugarwch sylfaenol busnesau Cymru yn yr economi byd-eang, gan daro cydbwysedd go iawn rhwng tair colofn datblygiad cynaliadwy.

RHEOLEIDDWYR I DDANGOS CYFRANIAD I DWF YR ECONOMI

Mae Rheoleiddio yn offeryn cyfreithlon ar gyfer gwella perfformiad amgylcheddol busnesau, y dylid rhoi amser iddynt gynllunio a chyllidebu ar gyfer newid.


Nid yw twf economaidd ac amgylchedd glanach yn nodau croes. Gall polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflawni'r ddau, a dylent wneud hynny. Dylid rhoi cylch gwaith eglur a phenodol iawn i reoleiddwyr amgylcheddol gyflawni hyn, gan gynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a chanlyniadau.

Dylai Rheoleiddwyr fod ag ymrwymïadau cadarn i ddangos sut maen nhw wedi cyfrannu at dwf yr economi a, thrwy hynny, roi hyder i fusnes nad yw'r rheoleiddwyr yn cael eu gyrru gan bryderon amgylcheddol yn unig ond eu bod yn deall yn llawn ganlyniadau eu penderfyniadau a'u heffaith ar ffyniant Cymru yn y dyfodol.

Y SECTOR CYHOEDDUS I DDOD YN FABWYSIADWYR CYNNAR AR DDATBLYGU MARCHNADOEDD A GYRRU ARLOESED

Os yw Llywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau cyhoeddus o ddifrif ynglŷn â gwella perfformiad amgylcheddol, rhaid iddi arwain y ffordd wrth symbylu'r galw am gynhyrchion amgylcheddol-gyfeillgar, fel paneli solar. Bydd hyn yn helpu cynyddu'r galw am y cynhyrchion hyn, a bydd yn symbylu cwmnïau i fuddsoddi mewn datblygu technolegau a chynhyrchu cynhyrchion amgylcheddol-gyfeillgar. Bydd hefyd yn annog arloesedd yn y maes hwn ymysg y sector preifat, a bydd yn cynorthwyo wrth yrru'r economi ehangach yn ei flaen.

Yr her i'r Llywodraeth nesaf fydd cyflawni gwelliannau amgylcheddol heb niweidio cystadleugarwch sylfaenol busnesau Cymru yn yr economi byd-eang



8. ECONOMI CYMRU A THRAFNIDIAETH

“I fusnes allu gyrru economi sy’n tyfu yng Nghymru, mae system drafnidiaeth ddibynadwy, effeithlon sydd â digon o allu yng Nghymru a chysylltiadau rhagorol â marchnadoedd tramor allweddol yn gydran hanfodol.”

Mae’r Cynulliad eisoes wedi sicrhau pwerau ychwanegol ym maes trafnidiaeth trwy Ddeddf Trafnidiaeth Cymru 2005, ac yn awr rhaid iddo weithio gyda chyrrff sector cyhoeddus eraill, yn arbennig awdurdodau lleol, a’r sector preifat i sicrhau bod isadeiledd ffisegol Cymru yn addas ar gyfer economi’r dyfodol.

Mae busnesau sy’n bodoli eisoes a mewnfuddsoddwyr posibl yn ffurfio’u barn ynglŷn â Chymru yn unol â mynediad ac isadeiledd. Bydd methu â gwneud Cymru gyfan yn hygyrch i’w marchnadoedd yn amharu’n uniongyrchol ar gostau busnes a chystadleugarwch, gyda’r amryfal ganlyniadau a ddaw yn sgil hynny. Felly, mae’n hanfodol fod gennym rwydwaith trafnidiaeth dibynadwy ac effeithlon yng Nghymru i ddenu’r fath fuddsoddiad.

CYNYDDU GWARIANT AR ISADEILEDD TRAFNIDIAETH

Mwy na thebyg, gwella isadeiledd Cymru, ac yn arbennig ein rhwydwaith ffyrdd, yw’r cam pwysicaf y gallwn ei gymryd tuag at ddatblygu economi Cymru. Er bod diwydiant yn ymwybodol iawn o’r costau sylweddol sy’n gysylltiedig â chynlluniau trafnidiaeth pwysig, a’r blaenoriaethau sy’n gwrthdaro â’i gilydd o fewn cyllideb y Cynulliad, mae aelodau’r CBI yng Nghymru yn credu’n gryf y dylid clustnodi mwy o gyllid i drafnidiaeth yng Nghymru.

Dylai polisi trafnidiaeth y Cynulliad gydnabod, tan y bydd economeg ac atyniadau dulliau teithio eraill yn newid yn sylweddol, y bydd ffyrdd yn parhau fel y prif fath o drafnidiaeth (gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus) i’r mwyafrif o bobl a nwyddau am lawer o flynyddoedd. Dylid buddsoddi yn unol â hyn, a dylai ymgorffori mesurau i godi ymwybyddiaeth o effaith amgylcheddol y dewisiadau trafnidiaeth sy’n wynebu unigolion a busnesau.

Felly, barn y CBI yw y dylid cyfeirio cyllid yn unol â hyn – o ba bynnag ffynonellau posibl sydd ar gael, gan gynnwys cyllid Ewropeaidd, Menter Cyllid Preifat a ffurfiau arloesol o Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat.

Mae’r CBI hefyd o’r farn y dylid adolygu dyraniadau cyllid Llywodraeth y Cynulliad, gan roi sylw penodol i gyllideb yr adran Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau. Mae diwydiant yng Nghymru o’r farn y gellid datblygu’r economi yn fwy effeithiol drwy ailgyfeirio llawer o’r arian cefnogi busnes o fewn cyllideb MARh i isadeiledd trafnidiaeth strategol, ac yn arbennig i ddatblygu heolydd. Byddai hyn yn cael yr effaith fwyaf ar yrru datblygiad economaidd yng Nghymru yn ei flaen, ac o ganlyniad wrth fodloni dyheadau polisi cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

CYFLAWNI ADDEWIDION TRAFNIDIAETH

Mae aelodau’r CBI yn cydnabod mai polisi trafnidiaeth yw’r maes lle cafwyd y cynnydd mwyaf sylweddol – neu, yn hytrach, y cynnydd sylweddol a gynlluniwyd, ers sefydlu’r Cynulliad. Bu’r CBI yn gefnogwr mawr i gam y Cynulliad i gynnwys trafnidiaeth ym mhortffolio datblygiad economaidd/menter y Cynulliad, a thrwy hynny gydnabod y cysylltiad cynhenid rhwng trafnidiaeth a’r economi.

Ac rydym ni wedi cefnogi llawer o’r argymhellion sy’n ymwneud â’r polisi trafnidiaeth a gynhwysir yn Adolygiad Trafnidiaeth 2004, Deddf Trafnidiaeth Cymru 2005 ac amryw ddogfennau polisi eraill.

Fodd bynnag, rydym ni o’r farn ei bod yn bryd i’r Cynulliad weithredu yn unol â’r cynigion hyn, a chyflawni ei gynnydd arfaethedig. Y datblygiad pwysicaf yn y cyswllt hwn yw creu’r M4 newydd yng nghyffiniau Casnewydd – a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2004, ond sydd heb gael ei hadeiladu hyd yn hyn, a’r ymrwymiad i greu rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus integredig ledled Cymru.

9. ECONOMI CYMRU AC YNNI

“Mae cyflenwi, diogelwch a chost ynni ymysg y materion pwysicaf sy’n effeithio ar ddiwydiant heddiw.”

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu’n rhaid i bob busnes gystadlu â chynnydd sylweddol yng nghostau ynni a bygythiad ymyrryd ar gyflenwadau ynni. O ystyried bod cyfran uchel o gwmnïau ynni-ddwys yn yr economi, ac amlygrwydd gweithgynhyrchwyr, teimlid hyn yn arbennig o gryf yn y byd diwydiant yng Nghymru. Er bod y cynnydd hwn wedi symblu effeithlonrwydd ynni, gan helpu ymdrin â newid yn yr hinsawdd, canlyniad arall yw llai o fuddsoddi mewn busnes, a thrwy hynny danseilio’r potensial ar gyfer tyfiant.

Mae’r amgylchiadau hyn yn amlygu difrifoldeb a phwysigrwydd creu strategaeth hirdymor ynghylch cyflenwi ynni, ar sail lleihau gollyngiadau nwy tŷ gwydr i leihau newid yn yr hinsawdd, a diogelu cystadleugarwch drwy sicrhau cyflenwad a fforddiadwyedd yng Nghymru.

DATBLYGU STRATEGAETH HIRDYMOR AR GYFLENWI YNNI, GAN GOFLEIDIO CYMYSGEDD YNNI PRIODOL


Hyd yn hyn, siomwyd aelodau CBI Cymru gan ddiffyg ymddangosiadol Llywodraeth y Cynulliad i ymdrin â’r mater hwn mewn ffordd briodol, a’i methiant i dderbyn unrhyw rôl bosibl i bŵer niwclear yn ein cymysgedd ynni yn y dyfodol.

Mae’r CBI yn annog y Cynulliad newydd i gynnal dadansoddiad priodol ar frys o anghenion ynni Cymru ar gyfer y dyfodol, ac i weithio gyda Llywodraeth y DU a’r sector cynhyrchu preifat i beidio ag eithrio unrhyw ffynonellau ynni posibl.

Mae adolygiad ynni Llywodraeth y DU o blaid gorsafoedd pŵer niwclear. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn agored i rôl niwclear mewn cynhyrchu ynni. Os caiff y dewis hwn ei wrthod, rhaid i’r Llywodraeth allu dangos dewisiadau eraill credadwy sy’n bodloni profion diogelwch cyflenwad, fforddiadwyedd a lleihau CO2.

SYSTEM GYNLLUNIO YN CYD-FYND AG ANGHENION CYNHYRCHU A DOSBARTHU YNNI

Mae diwydiant trwm yng Nghymru yn dibynnu’n fawr ar argaeledd ynni economaidd, ac mae eisoes wedi rhybuddio bod ei ddyfodol yn wirioneddol yn y fantol os nad ymdrinnir â’r mater hwn ar unwaith. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn cefnogi datblygu prosiectau ynni ar raddfa fawr, yn arbennig niwclear ac ynni adnewyddadwy, y mae eu hangen i fodloni ein gofynion ynni ar gyfer y dyfodol. Rhaid rhoi sylw arbennig i argymhellion Adolygiad Barker ar gynllunio ar gyfer prosiectau isadeiledd pwysig yng nghydestun ein hanghenion ynni ar gyfer y dyfodol.



Mae cyflenwi, diogelwch a chost ynni ymysg y materion pwysicaf sy’n effeithio ar ddiwydiant heddiw

10. ECONOMI CYMRU A CHYNLLUNIO

“Mae twf economi Cymru yn dibynnu mwy ar system gynllunio effeithiol a syml nag y mae llawer yn sylweddoli.”

YMAGWEDD “GALLWN” AT DDATBLYGUT

Mewn byd lle mae'r gystadleuaeth am fuddsoddiad yn tyfu, rhaid i'r system gynllunio fod yn alluogwr yn hytrach nag yn atalydd, ar gyfer buddsoddiad sector preifat ac ar gyfer datblygiad isadeiledd cyhoeddus. Rhaid cael ymagwedd “gallwn” at ddatblygu.

Dylai Cymru gael polisi cynllunio sy'n gweithio gyda grymoedd y farchnad ac nid yn eu herbyn, a rhaid i'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r amser a'r gost sy'n gysylltiedig â sicrhau caniatâd cynllunio, yn ogystal â'r gwasanaeth anghyson a ddarperir ledled Cymru.

RHAID NEILLTUO FFÏOEDD YCHWANEGOL AR GYFER CEISIADAU CYNLLUNIO O FEWN ADRANNAU CYNLLUNIO


Mae ffioedd cynllunio wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan nodi cynnydd sylweddol posibl yn y swm y bydd yn rhaid i gwmnïau ei dalu i gynllunio datblygiad. Mae busnes yn barod i dalu mwy am system gynllunio well, cyhyd â bod yr arian yn cael ei neilltuo a'i gyfeirio yn uniongyrchol yn ôl i mewn i'r gwasanaethau cynllunio, a chyhyd ag y ceir gwelliant canfyddadwy yn ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth. Rhaid mynd i'r afael â hyn cyn gynted ag y bo modd.

CYDBWYSO GALW A DATRYS GWRTHDARO

Mae gan y Cynulliad ran allweddol i'w chwarae wrth reoli'r galwadau priodol am ddemocratiaeth leol yn y broses gynllunio gyda'r angen am fuddsoddiad strategol, a'r gystadleuaeth o gyfeiriad lleoliadau eraill sy'n gweithredu yn unol ag amserlenni byrrach. Bydd ceisio pwerau ychwanegol i gyflwyno system gynllunio fwy ymatebol yng Nghymru yn rhoi mantais gystadleuol i ni.

Mae'r gwrthdaro rhwng y cyrff rheoleiddio a diwydiant yn parhau, ac mae'n parhau i rwystro datblygiad economaidd. Mae'r cydbwysedd eiddil y mae'n rhaid ei gyflawni o ran hyrwyddo datblygiad cynaliadwy hefyd yn parhau i gael ei bwysoli'n fawr yn erbyn datblygiad gan ddiwydiant, gan anwybyddu'r effaith hirdymor ar economi Cymru yn aml iawn.

Mae twf economi Cymru yn dibynnu mwy ar system gynllunio effeithiol a syml nag y mae llawer yn sylweddoli



11. ECONOMI CYMRU A CHARTREFI

“Mae eiddo, a chartrefi yn benodol, yn ffactor arwyddocaol wrth yrru adfywiad economaidd a chymdeithasol, a dylai polisiau ac arferion y Cynulliad adlewyrchu hyn.”

Mae cartrefi newydd yn ffactor allweddol wrth ddenu buddsoddiad i Gymru, ac wrth gadw'r gweithlu. Mae ansawdd ac argaeledd cartrefi yn fater penodol mewn rhannau penodol o Gymru, fel ardal Blaenau'r Cymoedd, ac yn un lle mae gan y sector preifat rôl allweddol i'w chwarae, yn arbennig wrth ddarparu cartrefi fforddiadwy, ochr yn ochr â darpariaeth y sector cyhoeddus.

CYDNABOD RÔL Y SECTOR PREIFAT MEWN DARPARU CARTREFI FFORDDIADWY

Nid yw cartrefi fforddiadwy yn cyfeirio at dai cymdeithasol yn unig, ac ni ddylent fod yn diriogaeth unigryw'r sector cyhoeddus yn unig.

Mae angen cartrefi ar y rheiny sy'n prynu tai am y tro cyntaf a gweithwyr allweddol, ac mae gan y sector preifat ran amlwg i'w chwarae wrth gyflwyno cartrefi fforddiadwy, ochr yn ochr â'r sector cyhoeddus. Dyma'r bobl a fydd, yn y pen draw, yn cyfrannu at yr economi hyfyw rydym yn dyheu amdano wrth iddynt ddatblygu eu bywyd gwaith, a rhaid gwneud darpariaethau i ganiatáu codi cartrefi addas ar eu cyfer.

Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod y system gynllunio a democratiaeth leol yn gweithio gyda darparwyr y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu'r ddarpariaeth addas o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru.


CEFNOGI DARPARU CARTREFI RHEOLWYR CANOL A GWEITHREDOL YNG NGHYMURU

Mae angen penodol yng Nghymru am gartrefi gweithredol i reolwyr canol ac uwch reolwyr, a rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a'r sector preifat i gyflawni'r ddarpariaeth. Er enghraifft, byddai caniatáu adeiladu datblygiadau gweithredol ym Mlaenau'r Cymoedd yn helpu creu amgylchedd byw a gweithio mwy deniadol i'r rheiny sy'n byw yn yr ardal eisoes, ac wrth recriwtio staff. Byddai hyn yn gwneud llawer i gynyddu lefelau ffyniant economaidd yn y gymdogaeth.

PARHAU I DDILYN Y RHAGLEN TROSGLWYDDO STOC DAI

Mae potensial mawr ar gyfer trosglwyddo stoc ar draws Cymru – a throsglwyddo stoc trwy Bartneriaeth Cyhoeddus-Preifat yw'r unig ddewis hyfyw. Mae gan drosglwyddo stoc y potensial i adfywio cymunedau ac i gynorthwyo datblygiad economaidd, yn ogystal â gwella safonau ansawdd tai.

Ar hyn o bryd, Valleys to Coast ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw'r unig sefydliad trosglwyddo gwirfoddol ar raddfa fawr yng Nghymru, sydd wrthi'n llwyddiannus yn codi cyfalaf i adnewyddu tai a chyflwyno'r gwelliannau y mae eu hangen i fodloni safonau ansawdd tai. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i ddilyn ei pholisi o drosglwyddo stoc dai ar draws Cymru, ar sail y model hwn. Bydd hyn yn gwella'r stoc dai yng Nghymru, yn caniatáu i'r sector preifat gymryd rhan mewn cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus, ac yn cyfrannu at y nod yn y pen draw o greu twf yn economi Cymru.



Mae eiddo, a chartrefi yn benodol, yn ffactor arwyddocaol wrth yrru adfywiad economaidd a chymdeithasol, a dylai polisiau ac arferion y Cynulliad adlewyrchu hyn

agenda ar gyfer economi sy'n tyfu

BLAENORIAETH BLAENORIAETHAU CYMRU

CRYNODEB


Mae busnes yng Nghymru yn awyddus i gefnogi'r Cynulliad wrth adeiladu Cymru ffyniannus. Mae'n gwneud hynny trwy ddarparu cyflogaeth, gwasanaethau a chyfoeth.

Yr unig ffordd y gall wneud hynny yw os na fydd yn rhaid iddo gario baich mwy o reoleiddio neu orfodaeth waeth na'r cystadleuwyr sydd ganddo, y rhoddir y ffyrdd iddo y mae eu hangen ar ei weithwyr ac i symud nwyddau, ac y rhoddir system gynllunio effeithiol iddo sy'n galluogi i fusnesau ehangu'n llwyddiannus.

I wneud i hyn ddigwydd, mae angen trefn lywodraethol dda gyda gwrthblaid adeiladol a byw.

Y nod i Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda gwrthblaid cyfrifol ac wrth weithio gyda'r gymuned fusnes, yw adeiladu cenedl ddeinamig, addysgedig ac iach.

Mae busnes yng
Nghymru yn awyddus i
gefnogi'r Cynulliad wrth
adeiladu Cymru
ffyniannus



ATODIAD 1:

Y CBI yw'r prif gorff sy'n cynrychioli busnes yn y DU ac mae'n ymdrin yn bennaf â materion traws-sector, sy'n effeithio ar yr amgylchedd busnes y mae pob cwmni yn gweithredu oddi mewn iddo. Gorwedd cryfder y CBI yn ehangder ei aelodaeth, sy'n cynnwys cwmnïau o bob maint, gan gynnwys mwy na 200 o gymdeithasau masnach a sefydliadau academaidd, ac o bob sector o'r economi - gweithgynhyrchu, adeiladu, manwerthu, gwasanaethau ariannol, e-fasnach, hamdden, cludiant ac ati. Mae'r CBI yn cynrychioli cwmnïau sy'n cyflogi rhyw 50% o weithlu'r sector preifat yng Nghymru.

RHESTR O AELODAU CYNGOR CBI CYMRU

Peter Griffiths

CBI Wales Chair
CBI Wales Council
Principality Building Society
CARDIFF

Margaret Matthews

CBI Wales Vice-Chair
Dow Corning Ltd
BARRY

Tony Bagnall

NetCOS (UK) Operations,
EADS DS (UK)
NEWPORT

Ann Beynon

British Telecom
CARDIFF

Dr Roy Bichan

KMC International
CARDIFF

Andrew Browne

General Dynamics
UK Ltd
GWENT

Michael Bugler

Desk-Link Office Furniture Ltd
TREDEGAR

Neil Burns

Peacock Group Plc
CARDIFF

Louise Casella

Cardiff University
CARDIFF

David Catherall

TDC Services
DEESIDE

Prof Tony Chapman

UWIC
CARDIFF

Guy Clarke

Morgan Cole Solicitors
CARDIFF

Owain Davies

Spencer Davies Engineering Ltd
BURRY PORT

Phil Dryden

Corus Strip Products (UK)
PORT TALBOT

Graham Edwards

Wales and West Utilities Ltd
CARDIFF

Robert Ellis

Warwick International
Group Ltd
HOLYWELL

Dr Paul Glover

Advanced Elastomer Systems
Ltd
NEWPORT

Dr Grahame Guilford

GE Healthcare
CARDIFF

Rob Haase

International Rectifier
NEWPORT

Nick Harrison

ATL Telecom Ltd
CARDIFF

Robert M Herritty

Private and Public Markets
Alcatel Telecom
CARDIFF

Denis Jones

University of Wales
NEWPORT

Gerry Jones

Linde Severnside Ltd
BRIDGEND

Arnold Kammerling

Carl Kammerling International Ltd
PWLLHELI

Dr Carl Klemm

Toyota Motor Manufacturing
(UK) Ltd
DEESIDE

Dale Krueger

INCO Europe Ltd
SWANSEA

Dan Langford

Acorn Recruitment Ltd
NEWPORT

Colin Lewis

Redrow Plc
EWLOE

Jon Mendoza

Watkin Jones & Son Ltd
BANGOR

Huw Owen

Owens (Road Services) Ltd
LLANELLI

John Pearce

BASF Coatings
DEESIDE

Jackie Pearson

UPM Kymmene
(Shotton Paper)
Shotton

Adrian Piper

Bank of England
CARDIFF

Garry Prankerd

HSBC Bank
CARDIFF

Brian Roberts

Rockwool Ltd
PENCOED

Robert Salisbury

Gamlins Solicitors
RHYL

Maurice Salvoni

Star County Textile Services Ltd
WREXHAM

Pierre Sarre

Control Techniques Ltd
NEWTOWN

Christopher Saunders

LAS Waste Ltd
LAMPETER

Ms Louisa Scadden

Admiral Group Ltd
CARDIFF

Prof Mike Scott

North East Wales Institute
WREXHAM

Roger Thomas

Eversheds
Cardiff

Malcolm Thomas

NFU Wales
SWANSEA

Richard Thompson

Arvin Meritor
Heavy Vehicle Braking Systems
CWMBRAN

Scott Waddington

SA Brain & Co
CARDIFF

Graham White

Hoover Candy Group
MERTHYR TYDFIL

Gillian Wilmot

Buy As You View Ltd
LLANTRISANT

Cyswllt:

Gellir cysylltu â Chyfarwyddwr CBI Cymru, David Rosser, neu Gyfarwyddwr Cynorthwyol – Polisi, CBI Cymru, Leighton Jenkins ar

2 Pwynt Caspian, Ffordd Caspian, Caerdydd, CF10 4DQ neu drwy anfon neges e-bost at Leighton.Jenkins@CBI.org.uk